Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet

Office of the First Minister and Cabinet Office

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf : ATISN 10060
Dyddiad: 19/1/2016

Annwyl ,

Cais am Wybodaeth – cyfeirnod ATISN 10060

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law Llywodraeth Cymru ar 18 Rhagfyr 2015. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- Ydy aelodau etholedig yn gorfod datgan a ydyn nhw'n aelod o'r seiri rhyddion?
- Faint o aelodau etholedig sydd wedi datgan eu bod yn aelodau o'r seiri rhyddion? Os oes rhai, pwy ydyn nhw?
- Oes rheidrwydd ar swyddogion/gweision sifil i ddatgan os ydyn nhw'n aelod o'r seiri rhyddion?
- Faint o swyddogion/gweision sifil sydd wedi datgan eu bod nhw'n aelodau o'r seiri rhyddion? Os oes rhai, pwy ydyn nhw?

Nid yw Llywodraeth Cymru'n cadw'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani yn eich cais. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cadw gwybodaeth am gynrychiolwyr etholedig. Nid oes rheidrwydd ar weision sifil Llywodraeth Cymru i ddatgan os ydyn nhw'n aelodau o'r seiri rhyddion, felly nid yw'r wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani gennym.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn.  Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

CentralDepartments-FOI/DP@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.cymru.gov.uk

Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bost: FreedomOfInformationOfficer@wales.gsi.gov.uk

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir